Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y cyfarfod:	**13 Gorffennaf 2023**
Teitl:	**Recriwtio Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau**
Pwrpas yr adroddiad:	**Er mwyn sicrhau bod penodiadau priodol yn cael eu gwneud i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau**
Er:	**Penderfyniad**
Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:	**Y Cynghorydd Matthew Vaux Aelod y Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd**

CEFNDIR:
Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cynnwys naw aelod:
• 5 X aelod annibynnol a,
• 4 cynghorydd (2 x Cynghorydd sir, and 2 x Cynghorydd Tref/Cymuned).

Penodwyd John Weston a Carol Edwards i ddechrau ar 22/2/2018 ac maent yn gymwys ar gyfer cael eu hailbenodi ar 22/2/2024 am bedair blynedd arall.

Mae Carol Edwards wedi cadarnhau y bydd yn cael ei hailbenodi am bedair blynedd arall. Mae John Weston wedi cadarnhau na fydd yn ceisio cael ei ailbenodi unwaith y daw'r chwe blynedd cychwynnol i ben ar 21/2/2024.

O ganlyniad, mae angen bellach recriwtio aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau i gynnal cyfansoddiad y Pwyllgor, fel y nodir yn y Cyfansoddiad, ac fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth.

Mae'r weithdrefn a'r meini prawf ar gyfer penodi aelodau annibynnol wedi'u nodi yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (OS 2001/2283). Mae hyn yn cynnwys:

- Pan gyfyd swydd wag fel aelod annibynnol o bwyllgor safonau rhaid i'r awdurdod perthnasol o dan sylw gyhoeddi hysbyseb mewn dim llai na dau bapur newydd (nad ydynt wedi'u cyhoeddi gan yr awdurdod perthnasol hwnnw) sy'n cylchredeg yn ei ardal.
- Cyhoeddi'r meini prawf ar gyfer penodi.
- Rhaid sefydlu Panel Dethol o ddim mwy na phum aelod panel, gan gynnwys aelod lleyg o'r panel, ac aelod o gyngor cymuned. Bydd y panel hwn yn ystyried pob cais, yn rhoi'r meini prawf ar waith, ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor. Gwneir penodiadau gan roi ystyriaeth i argymhellion y panel.

CYNNIG

1. Bod y disgrifiad o'r swydd, manyleb y person a'r meini prawf ar gyfer penodi aelodau annibynnol fel y'u nodir yn **Atodiad 1.**

2. Bydd aelodaeth y Panel Dethol fel a ganlyn (x5):

- Cadeirydd y Cyngor (yr Is-gadeirydd yn ei absenoldeb);
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau (neu aelodau annibynnol eraill a enwebwyd gan y Swyddog Monitro yn ôl yr angen);
- Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned wedi'i enwebu gan Un Llais Cymru;
- Aelod Annibynnol/Lleyg o'r Panel (Cadeirydd y panel dethol) (a enwebwyd gan y Swyddog Monitro);
  Ni ddylai aelod Annibynnol/Lleyg o'r Panel fod nac wedi bod yn aelod, yn aelod cyfetholedig neu'n swyddog o'r Cyngor Sir, unrhyw gyngor neu Awdurdod Parc Cenedlaethol arall, neu Gyngor Tref/Cymuned. Cynigir y dylid enwebu'r un aelod lleyg a gadeiriodd y Panel Dethol blaenorol yn 2011, 2013, 2017, 2021 a 2022 (yn amodol ar argaeledd).

SEFYLLFA BRESENNOL:
Yn ei gyfarfod ar 5ed Mehefin 2023, CYTUNODD y Pwyllgor Moeseg a Safonau i argymell i'r Cyngor:

1) Bod cyfnod Carol Edwards yn y swydd yn cael ei ymestyn 22/2/2024 i 21/2/2028.

2) Bod y disgrifiad o'r rôl, manyleb y person a meini prawf

3) Aelodaeth y Panel Dethol fel a ganlyn:

- Cadeirydd y Cyngor (yr Is-gadeirydd yn ei absenoldeb);
- Aelod Annibynnol/Lleyg o'r Panel (wedi'i enwebu gan y Swyddog Monitro)
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau (neu aelodau annibynnol eraill a enwebwyd gan y Swyddog Monitro yn ôl yr angen)
- Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned wedi'i enwebu gan Un Llais Cymru.
- Aelod Annibynnol/Lleyg o'r Panel (Cadeirydd y panel dethol) (wedi'i enwebu gan y Swyddog Monitro)

	A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam	Amherthnasol – nid yw hyn yn newid o ran polisi na gwasanaeth.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	***Crynodeb:***	
	Hirdymor:	Ddim yn berthnasol
	Cydweithio:	Ddim yn berthnasol
	Cynnwys:	Ddim yn berthnasol
	Atal:	Ddim yn berthnasol
	Integreiddio:	Ddim yn berthnasol

ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION: bod y Cyngor yn penderfynu cymeradwyo:

1) Ymestyn cyfnod Carol Edwards yn y swydd 22/2/2024 i 21/2/2028.

2) y disgrifiad o'r rôl, manyleb y person a'r meini prawf (fel y nodir yn **Atodiad 1)**
3) Aelodaeth y Panel Dethol fel a ganlyn:

- Cadeirydd y Cyngor (yr Is-gadeirydd yn ei absenoldeb);
- Aelod Annibynnol/Lleyg o'r Panel (wedi'i enwebu gan y Swyddog Monitro)
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau (neu aelodau annibynnol eraill a enwebwyd gan y Swyddog Monitro yn ôl yr angen)
- Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned wedi'i enwebu gan Un Llais Cymru.
- Aelod Annibynnol/Lleyg o'r Panel (Cadeirydd y panel dethol) (wedi'i enwebu gan y Swyddog Monitro)

Rhesymau dros y penderfyniad:	**Mae'r argymhellion yn angenrheidiol i sicrhau bod y penodiadau priodol yn eu lle, yn unol â'r Cyfansoddiad.**
Trosolwg a Chraffu:	Ddim yn berthnasol
Fframwaith Polisi:	Cyfansoddiad y Cyngor:
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Mae'n cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei Flaenoriaethau Corfforaethol: • Hybu'r Economi • Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl • Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Dim
Goblygiadau Cyfreithiol:	Heb y penderfyniad hwn ni fydd y Pwyllgor yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol
Goblygiadau staffio:	Dim
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim
Risg(iau):	Dim
Pwerau Statudol:	Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (OS 2001/2283)
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Atodiad A – Disgrifiad o'r rôl, manyleb y person a'r meini prawf.

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elin Prysor Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu
Swyddog Adrodd:	Lisa Evans Swyddog Craffu a Safonau
Dyddiad:	20/6/23